> “Unwaith eto, cynhyrchiad safonol gan holl griw Theatr na nÓg”

theatr na nÓg

# ARANDORA STAR

*Gan* Mali Tudno Jones
a Geinor Styles



Mewn partneriaeth ag Amgueddfa Abertawe, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Technocamps.

Datblygu a chefnogi pobl ifanc i fod yn ddinasyddion Cymru a’r byd sy’n foesegol ac yn wybodus.
**Perffaith ar gyfer blwyddyn 5 i fyny**

Ymunwch â ni ar gyfer diwrnod cyfan o weithgareddau trawsgwricwlaidd.
**www.theatr-nanog.co.uk**





# ARANDORA STAR

*Gan* Mali Tudno Jones a Geinor Styles

*Mewn partneriaeth ag Amgueddfa Abertawe, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Technocamps.*

## Pan ymunodd yr Eidal a'r rhyfel yn ystod haf 1940, cafodd Eidalwyr a oedd yn byw yng Nghymru a gweddill y DU eu brandio fel y gelyn.

Ar y 1af o Orffennaf 1940, cafodd yr Arandora Star ei gamgymryd am long filwrol a'i dorpido gan 'Uboat' o'r Almaen oddi ar arfordir Iwerddon, a'i suddo gyda 446 o fywydau dynion o'r Eidal wedi eu colli.

Mae ein drama, Yr Arandora Star, yn adrodd stori emosiynol Lina wrth iddi frwydro i ymdopi â cholli ei thad, Guido, a sut mae hi a'i mam, Carmella yn goroesi mewn cyfnod o ryfel a rhagfarn.

Mae'r Arandora Star yn stori wir a bydd yn archwilio bywyd mewnfudwyr sy'n byw ac yn gweithio yn y DU yn ystod cyfnod o ryfel ac yn dilyn cwest Lina am ei thad a'r gwir.

Mae'r ddrama hon yn amlygu materion mewnfudo ac integreiddio.

**Perffaith ar gyfer Blwyddyn 5 i fyny**

# Dyddiadau

**Perfformiadau drwy gyfrwng y Gymraeg**
Chwefror 8 – Chwefror 18 2022

**Perfformiadau drwy gyfrwng y Saesneg**
Mawrth 2 – Ebrill 8 2022

Perfformiadau am 10am a 1pm Dydd Mawrth i Ddydd Gwener. Theatr Dylan Thomas, Abertawe

Mae ein pecynnau i ysgolion wedi'u cynllunio'n benodol i gwmpasu pob maes o'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd

**Y themâu craidd yw**
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Rhyfel yn y 20fed ganrif a'r Ail Ryfel Byd
- Elfennau o drawsieithu Cymraeg, Saesneg ac Eidaleg



# Pecynnau

**YSGOLION GYNRADD – Ar gael o Ddydd Mawrth i Ddydd Gwener**
Diwrnod cyfan o weithgareddau.

- Perfformiad o'r ddrama, 'Yr Arandora Star' yn Theatr Dylan Thomas
- Sesiwn Cwestiwn ac Ateb gyda'r Cast
- Ymweliad i weld arddangosfa'r Ail Ryfel Byd yn Amgueddfa Abertawe
- Gweithdy am ddim yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
- Adnoddau ar-lein am ddim yn gysylltiedig â themâu'r sioe

Bydd pob ysgol gynradd yn cael ei chynnwys mewn cystadleuaeth i ennill gweithdy côdio gan Technocamps yn rhad ac am ddim.

Bydd y diwrnod yn dechrau'n brydlon am 9.45am ac yn gorffen am 2.30pm (mae gennym ddiwrnod llawn dop ar eich cyfer felly peidiwch â bod yn hwyr!).

**YSGOLION CYFUN - Ar gael ar Ddyddiau Llun neu diwrnodau eraill ar gais**
Cyfle delfrydol i'r rhai sy'n astudio
Hanes TGAU - Bywyd yn ystod Amser Rhyfel
Drama TGAU - Dehongli Drama
Dewch i weld y sioe a'r sesiwn Cwestiwn ac Ateb am 10am neu 1pm neu dewch am ddiwrnod cyfan:

- Perfformiad o'r ddrama, 'Yr Arandora Star' yn Theatr Dylan Thomas (1 awr)
- Sesiwn Cwestiwn ac Ateb gyda'r Cast (20 munud)
- Amser i edrych o amgylch Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (dewisol)
- Adnoddau ar-lein am ddim yn gysylltiedig â themâu'r sioe.

# Beth sydd eisiau i chi ei wneud

- ☐ Ewch i **www.theatr-nanog.co.uk/cy/yr-arandora-star** er mwyn cyflwyno eich cais.
- ☐ Archebwch eich tocyn am ddim i'r Blaenweledia d ar gyfer Athrawon. **cy-arandorastar.eventbrite.co.uk**
- ☐ Byddwn yn e-bostio contract atoch a fydd yn cynnwys eich dyddiad dynodedig er mwyn i chi ei arwyddo a'i ddychwelyd. Mae'n gyflym iawn i wneud, teipiwch eich enw a gwasgwch 'anfon.' Gwnewch hyn oddi fewn i 7 diwrnod o'i dderbyn.
- ☐ Lawr-lwythwch ein App newydd, sy'n llawn adnoddau ar eich cyfer chi a'ch disgyblion gan gynnwys cynlluniau gwersi ar gyfer tymor y Gwanwyn. Byddwn yn anfon cyfarwyddiadau llawn atoch ar ôl i chi lofnodi'ch contract.
- ☐ Trefnwch gludiant.
- ☐ Ymgyfarwyddwch ag amserlen y dydd a threfnwch sut y bydd eich grŵp yn rhannu, os bydd angen. (Er y gall y theatr ddal 100 o bobl, gall yr ystafelloedd ar gyfer y gweithdai ond dal uchafswm o 45 o ddisgyblion, felly yn ddibynnol ar faint eich grŵp a faint o bobl fydd yn dod ar y diwrnod hwnnw, efallai y byddwn yn gofyn i chi rannu'n ddau grŵp er mwyn sicrhau fod lle i bawb. Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn i chi gyrraedd os bydd angen gwneud hyn).
- ☐ Gwnewch nodyn yn eich dyddiadur i ddychwelyd a chwblhau eich ffurflen adborth oddi fewn 10 diwrnod o'ch hymweliad.
- ☐ Talwch yr anfoneb y byddwn yn ei anfon atoch oddi fewn i 60 diwrnod o'ch ymweliad.
- ☐ Ffoniwch ni os ydych yn ansicr o unrhyw beth ar 01639 641771.

# Faint mae'n ei gostio?

Rydym yn derbyn cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru a gan nifer o Ymddiriedolaethau a Sefydliadau tuag at gostau'r prosiect.

Byddwn yn defnyddio'r cyllid hwn er mwyn gostwng y pris i chi, gan ei ostwng **£7.50+TAW ar gyfer pob disgybl / oedolyn** yn ogystal ag **un tocyn oedolyn am ddim gyda phob 10 disgybl.**

Fel amod i'r cyllid hwn, mae angen i ni gasglu adborth gan bob cyfranogwr.

Er mwyn derbyn y pris gostyngol hwn, rydym yn gofyn am dri pheth:

1. Eich bod yn arwyddo'ch contract archebu a fydd yn cael ei e-bostio atoch a'i ddychwelyd oddi fewn 7 diwrnod o'i dderbyn.
2. Eich bod yn cwblhau arolwg syml, ar-lein oddi fewn i 10 diwrnod o'ch ymweliad.
3. Eich bod yn talu'ch anfoneb oddi fewn 60 diwrnod wedi'ch ymweliad.

Byddwn yn anfon negeseuon atoch i'ch atgoffa, felly does ddim angen i chi boeni am anghofio gwneud hyn.

**I archebu ewch**

theatr-nanog.co.uk/cy/yr-arandora-star

# Adnoddau am ddim



Mae app Theatr na nÓg, a grëwyd gan athrawon a disgyblion, yn llawn adnoddau a chynlluniau gwersi i'ch helpu chi i adeiladu rhaglen waith ar gyfer eich tymor Hydref.

Mae'r app yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio a gellir ei lawrlwytho i'ch ffôn neu dabled, ei ddefnyddio trwy borwr rhyngrwyd neu ei gysylltu â'ch bwrdd rhyngweithiol fel y gall pawb ddysgu mwy am y themâu yn y sioe.

Anfonir manylion am sut i gael gafael arno ar ôl derbyn eich cytundeb archebu wedi'i lofnodi.





# Blaenweledиad ar gyfer Athrawon

**Dydd Llun 7 o Chwefror 2022 4yh i 6.30yh yn y Gymraeg**
**Dydd Mawrth 1 o Fawrth 2022 4yh i 6.30yh yn y Saesneg**
**Yn Theatr Dylan Thomas, Abertawe**

Eich cyfle chi i

- weld blaenweledиad o'r perfformiad cyn i chi ddod â'ch grŵp
- derbyn adnoddau ar-lein sydd yn rhad ac am ddim
- gweld blaenweledиad o weithgareddau'r amgueddfa
- rhoi adborth i ni

Fel bod eich disgyblion yn cael y mwyaf o'u diwrnod, rydym yn argymell fod o leiaf un athro o'ch ysgol yn bresennol.

Mae hwn yn ddigwyddiad sy'n rhad ac am ddim ac mae argaeledd cyfyngedig felly sicrhewch eich bod yn archebu eich tocyn o flaen llaw.

**Dydd Llun 7 o Chwefror 4yh i 6.30yh (Cymraeg)**
cy-arandorastar.eventbrite.co.uk

**neu Dydd Mawrth 1 o Fawrth 4yh i 6.30yh (Saesneg)**
arandorastar.eventbrite.co.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Swansea Museum Amgueddfa Abertawe
technocamps
Swansea University Prifysgol Abertawe
HODGE FOUNDATION

Lluniau: Paulette Pelosi Collection